# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN,<br>28 MEDI, 2026 am 10.00 o'r gloch yb** | **MONDAY,<br>28 SEPTEMBER, 2026 at 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor   Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**ELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees, Margaret M Roberts, Sonia Williams **(Cadeirydd/Chair)**

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Robert Ll Jones, Derek Owen, Liz Wood

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelod Unigol/Unaffiliated**

Douglas M Fowlie

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Parchedig/Reverend Llewelyn Moules-Jones - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Christina Williams - (Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 CRAFFU PARTNERIAETHAU STRATEGOL: BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2026/2027** (Tudalennau 15 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

## *Partnership and Regeneration Scrutiny Committee*

Cyngor Sir Ynys Môn | 28 Medi 2026, 10:00 - 12:30

*Isle of Anglesey County Council | 28 September 2026, 10:00 - 12:30*

*Cyflwynwyd gan: Dyfed Edwards - Cadeirydd/ Presented by: Dyfed Edwards - Chair*

# Trosolwg o'r Themâu

# *Overview of Themes*

1. **Perfformiad a Gwelliant Cyffredinol**
   *Overall Performance and Improvement*
2. **Mynediad at Wasanaethau Gofal Iechyd**
   *Access to Healthcare Services*
3. **Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion**
   *Adult Mental Health Services*
4. **Niwro-amrywiaeth ac Awtistiaeth Plant a Phobl Ifanc**
   *Children & Young People Neurodiverse/Autism Services*
5. **Integreiddio a Gweithio mewn Partneriaeth**
   *Integration and Partnership Working*
6. **Y Gymraeg**
   *Welsh Language*
7. **Sefyllfa Ariannol a Risgiau**
   *Financial Position and Risks*
8. **Parodrwydd a Gwydnwch**
   *Emergency Preparedness and Resilience*





# 1 Perfformiad a Gwelliant Cyffredinol *Overall Performance and Improvement*

- Datblygiad parhaus yr Hwb Rhyddhau Integredig
- Datblygu'r Fframwaith Diben a Rennir
- Cyflwyno'r broses asesu ddibynadwy yn yr Hwb Rhyddhau Integredig
- Gweithredu'r Dangosfwrdd Claf Cywir, Lle Cywir
- Heriau allweddol:
  - Llif cleifion
  - Cynaliadwyedd ariannol
  - Anghydraddoldebau iechyd
  - Iechyd Meddwl Pobl Hŷn

- Ongoing development of the Integrated discharge hub
- Development of the Shared Purpose Framework
- Roll out of trusted assessment of Integrated Discharge Hub
- Right Patient Right Place Dashboard implementation
- Key challenges:
  - Patient flow
  - Financial sustainability
  - Health inequalities
  - Older Persons Mental Health

# Mynediad at Ofal Iechyd (Rhan 1) *Access to Healthcare Services (Part 1)*

*Rhestrau Aros*

**Amseroedd aros gofal wedi'i gynllunio:**

- Gostyngiad yn amseroedd aros gofal wedi'i gynllunio i gleifion Ysbyty Gwynedd sy'n aros dros 104 wythnos - i lawr o 14,544 ym mis Hydref 2025 i 1,094 ym mis Medi 2026.
- Gostyngiad yn amseroedd aros cleifion allanol i gleifion Ysbyty Gwynedd sy'n aros dros 52 wythnos - i lawr o dros 20,000 ym mis Tachwedd 2025 i 1,512 ym mis Medi 2026.
- Ymrwymiad i wella amseroedd aros ymhellach a lleihau rhestrau aros cleifion, gyda chapasiti mewnol ac allanol ychwanegol yn cael ei sefydlu i ddarparu mynediad cynharach at ofal i gleifion gofal wedi'i gynllunio.

**Amseroedd aros Gofal Brys ac Argyfwng (UEC):**

- Gostyngiad mewn oedi Pecynnau Gofal, o 49 o gleifion ym mis Chwefror 2026 i 28 ym mis Awst 2026 (Acíwt a Chymunedol).
- Gostyngiad mewn amseroedd trosglwyddo ambiwlansys dros 1 awr o 2184 ym mis Ionawr 2026, i 1174 ym mis Awst 2026

*Waiting Lists Planned Care & UEC*

**Planned care waiting times:**

- Reduction in planned care waiting times for Ysbyty Gwynedd patients waiting over 104 weeks down from 14,544 October 2025 to 1094 at September 2026
- Reduction in outpatient waiting times for Ysbyty Gwynedd patients waiting over 52 weeks down from over 20,000 in November 2025 to 1512 September 2026
- A commitment to further improve waiting times and reduce patient waiting lists has been confirmed with additional internal and external capacity being established to provide earlier access to care for planned care patients

**UEC – waiting times:**

- Reduction in Package of Care Delays, from 49 patients in February 2026 to 28 in August 2026 (Acute & Community)
- Reduction in ambulance handovers times over 1 hour from 2184 in January 2026, to 1174 in August 2026.

# 2 Mynediad at Ofal Iechyd (Rhan 2) *Access to Healthcare Services (Part 2)*

***Newidiadau Gwasanaeth a Gofal Sylfaenol / Service Changes Phenrhos Stanley***

- Mae gwaith y Tîm Ymateb Cymunedol (CRT) yn symud ymlaen gyda phenodi Cydgysylltwyr, ac mae asesiad o wasanaethau MEC wedi'i gynllunio yn yr hydref i sicrhau cysoni â chynllunio UEC.
- Mae adolygiad o gontractau'r Trydydd Sector wedi'i gychwyn i sicrhau cysoni rhwng galŵ lleol a bwriad comisiynu.
- Cyfarfod diweddar â chynrychiolwyr Canolfan Glanhwyfa i adolygu opsiynau ar gyfer gweithio ar y cyd o fewn y gymuned.
- Heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff nyrsio, yn enwedig ar gyfer Nyrsio Ardal, ond mae lliniaru ar waith.
- Gwaith parhaus i wella cyfleusterau Ysbyty Penrhos Stanley, gyda gwaith arfaethedig i'r fynedfa flaen i alluogi gosod peiriannau gwerthu fferyllfa.
- Gwaith parhaus i gefnogi amseroedd aros Dermatoleg; mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i ymestyn Contract Mewnbrynu Dermatoleg ymhellach tan fis Mawrth 2026.
- Ffocws parhaus ar lwybrau derbyn ac adsefydlu Strôc; mae recriwtio Meddyg Ymgynghorol Strôc yn parhau'n flaenoriaeth allweddol.
- Mae'r Ystafell Triniaeth Gofal Sylfaenol yn YPS yn darparu ystod o ymyriadau cymunedol gan gynnwys gofal clwyfau, Gofal Wlserau Coesau, asesiadau Doppler, newidiadau gwisgo, gofal llinell PICC, adrannau vena, a gofal catheter. Rydym yn edrych ar atebion i gyflwyno'r hyn a ddysgwyd o'r Peilot Wlser Coesau ymhellach.



- CRT work progressing with appointment of Co-ordinators, and assessment of MEC services planned in the autumn to ensure alignment with UEC planning.
- Review of Third Sector contracts has been initiated to ensure alignment of local demand and commissioning intent.
- Recent meeting with representatives from Canolfan Glanhwyfa to review options for joint working within the community.
- On going challenges with recruitment and retention of nursing staff particularly for District Nursing, but mitigation in place.
- Work on going to improve Ysbyty Penrhos Stanley facilities, with planned work to front entrance allowing for pharmacy vending machines to be installed.
- Work ongoing to support Dermatology waiting times, Health Board agreed further extension to Dermatology Insourcing Contract until March 2026
- Continued focus on Stroke admission and rehabilitation pathways, recruitment of Stroke Consultant remain key priority.
- The Primary Care Treatment Room in YPS provides a range of community-based interventions including wound care, Leg Ulcer Care, Doppler assessments, dressing changes, PICC line care, vena sections, and catheter care. We are looking at solutions to further roll out what was learnt from the Leg Ulcer Pilot.

# 2

# 2. Mynediad at Ofal Iechyd (Rhan 3)

# *Access to Healthcare Services (Part 3)*

***Gofal Sylfaenol a Meddygon Teulu - Ynys Môn***

- Mae boddhad cleifion yn parhau'n uchel ar draws practisau Ynys Môn (e.e. Amlwch 9.32/10, Biwmares 9.20/10), gyda pharhad gofal cryf.
- Yr her fwyaf yw mynediad, nid ansawdd gofal: cysylltu â phractisau ar adegau prysur, oedi cyn cael apwyntiadau, a phwysau gweithlu.
- Mae practisau'n buddsoddi mewn ffôn, gan gynnwys telffoni seiliedig ar y cwmwl, apwyntiadau digidol ac ymgynghoriadau ar-lein, yn ogystal â gwell mordwyo gofal a defnydd gwell o adnoddau staff.
- Cyflwynodd Hwb Cybi (Caergybi, 8,720 o gleifion) dros 8,600 o apwyntiadau meddyg teulu mewn 4 mis, wedi'i gefnogi gan dîm amlddisgyblaethol ehangach.
- Mae cyfraddau Methu Mynychu yn parhau'n isel yn Hwb Cybi, gyda dim ond 12 i 57 o apwyntiadau meddyg teulu y mis wedi'u cofnodi fel DNAs.



***Primary Care and GP Access - Anglesey***

- Patient satisfaction remains high across Anglesey practices (e.g. Amlwch 9.32/10, Beaumaris 9.20/10), with strong continuity of care.
- Main challenge is access, not quality of care: contacting practices at peak times, appointment delays, and workforce pressures.
- Practices are investing in telephone including cloud-based telephony, digital appointments, and online consultations as well as Enhanced care navigation and improved deployment of staff resources
- Hwb Cybi (Holyhead, 8,720 patients) delivered over 8,600 GP appointments in 4 months, backed by a wider multidisciplinary team
- DNA (Did Not Attend) rates remain low in Hwb Cybi, with only 12 to 57 GP appointments per month recorded as DNAs.

# 3 Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion *Adult Mental Health Services*

- Mae perfformiad Mesur Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn her. Mae cynlluniau trajectori ar gyfer cydymffurfio wedi'u cytuno ac maent yn cael eu monitro i sicrhau bod cynnydd. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros i gael eu gweld am asesiad dros y 6 mis diwethaf. Ar hyn o bryd does dim cleifion o Ynys Mon mewn lleoliad y tu allan i’r ardal.
- Mae mynediad i gartrefi gofal yn parhau i fod yn her hefyd i'r cleifion hynny sydd â dirywiad gwybyddol. Mae gwaith parhaus i sicrhau bod pob CMHT yn yr ardal yn dilyn y broses i osgoi derbyniadau diangen ac amseroedd aros hir posibl ar gyfer derbyn mewn lleoliadau eraill.
- Digwyddodd Arolygiad AGIC o Ysbyty Cefni ym mis Gorffennaf 2025 gyda sylwadau cadarnhaol yn cyd-fynd â safon y gofal a roddir i gleifion ar y ward.
- Mae adolygiad o'r adnoddau cyfredol yn yr ardal o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru, er mwyn sicrhau cydraddoldeb gwasanaeth i gleifion.



- Mental Health Measure performance continues to be a challenge. Trajectory plans for compliance have been agreed and are monitored to ensure there is progress.  This has resulted in a reduction in the number of patients waiting to be seen for an assessment over the last 6 months.  Currently there are 0 patients from Anglesey in an out of area placement.
- Care home access also continues to be a challenge for those patient with cognitive decline. Ongoing work to ensure all CMHTs in the locality follow process to avoid unnecessary admissions and potential long waiting times for admission in other settings.
- HIW Inspection of Ysbyty Cefni occurred in July 2025 with positive comments aligned to standard of care given to patients on the ward.
- There is a review of current resource in the locality in comparison to other areas of North Wales, to ensure parity of service for patients.

# 4 Niwro-amrywiaeth ac Awtistiaeth Plant a Phobl Ifanc

# *Children & Young People Neurodiverse and Autism Services*

- 72 o blant o Ynys Môn ar ein rhestr aros ar hyn o bryd.
- Mae defnyddio darparwyr asesu allanol wedi cynyddu capasiti yn sylweddol ac wedi cyflymu cynnydd ar y rhestr aros.
- Mae arosiadau 3 blynedd bron wedi'u dileu.
- Mae offer proffilio Niwroddatblygiadol (ND) newydd yn cael eu cyflwyno i flaenoriaethu asesiadau yn ôl anghenion clinigol a risg.
- Mae'r gwaith yn parhau i sicrhau llwybr cynaliadwy, teg a seiliedig ar anghenion, gyda pherfformiad yn cael ei fonitro'n rhanbarthol.



- 72 children from Ynys Mon currently on our waiting list
- Use of external assessment providers has significantly increased capacity and accelerated progress on the waiting list.
- All 3 year waits have been nearly eliminated.
- New ND profiling tools are being introduced to prioritise assessment by clinical need and risk.
- Focus continues on a sustainable, equitable, needs-led pathway, with performance monitored regionally.

5

# Integreiddio a Gweithio mewn Partneriaeth

# *Integration and Partnership Working*



- Cydweithio effeithiol ag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i atal oedi wrth ryddhau cleifion.
- Sefydlu'r Hyb Rhyddhau Integredig.
- Cyfarfodydd Cysoni Rhanbarthol yn cael eu cynnal bob pythefnos.
- Mae'r dangosfwrdd Claf Cywir, Lle Cywir yn cael ei ddefnyddio gan dím gwasanaethau cymdeithasol Ynys Môn.
- Llwyddiant y Sbrintiau Gaeaf yng ngaeaf 2025/26, y byddwn yn eu datblygu ymhellach ar gyfer y gaeaf hwn.
- Mewnbwn ac ymgysylltiad gan Ynys Môn ar gyfer y cynllun rhyddhau rhanbarthol.
- Mae Cynllunio'r Gaeaf ar gyfer 2026/27 wedi cychwyn gydag Ynys Môn drwy'r cysoni rhanbarthol.
- Gwella’r Daith gyda’n Gilydd i ddechrau ar Hydref 17eg

- Effective collaboration with Social Services Department in preventing delayed discharges.
- Establishment of the Integrated Discharge Hub
- Regional Alignment Meetings taking place Bi-Weekly
- Right Patient Right place dashboard being used by Ynys Mon social services team
- Success of Winter Sprints in winter 2025/26 which we will develop further going into this winter
- Input and engagement from Ynys Mon for the regional discharge plan
- Winter Planning for 2026/27 has commenced with Ynys Mon through the regional alignment
- Improving the Journey Together to commence on October 17$^{th}$

# 6 Y Gymraeg

# *Welsh Language*

Tudalen 10

- Rydym yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Safonau Iaith Gymraeg a 'Mwy na Geiriau'.
- Mae gwasanaethau dwyieithog ar gael ar draws arwyddion, gwybodaeth i gleifion, gohebiaeth a gwasanaethau ffôn.
- Mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol, heb i gleifion orfod gofyn.
- Rydym yn cynyddu capasiti ar gyfer ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg, gan gefnogi cydymffurfiaeth â Safon Iaith 110.
- Rydym yn blaenoriaethu grwpiau a nodwyd yn 'Mwy na Geiriau', gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn, dementia, anableddau dysgu ac iechyd meddwl.
- Cefnogir staff drwy ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, dysgu a hyfforddiant penodol i wasanaethau.
- Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy fentrau gan gynnwys Cymraeg yn Gyntaf, Wythnos y Gymraeg a Hyrwyddwyr y Gymraeg.
- Mae adnoddau ymarferol yn cefnogi staff a chleifion sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys bathodynnau, lanyardiau, magnetau, cardiau atgoffa ac adnoddau hyfforddi.

- We comply with the Welsh Language (Wales) Measure 2011, Welsh Language Standards and More than just words.
- Bilingual services are available across signage, patient information, correspondence and telephone services.
- The 'Active Offer' ensures Welsh language services are offered proactively, without patients needing to ask.
- We are increasing capacity for clinical consultations in Welsh, supporting compliance with Welsh Language Standard 110.
- We prioritise groups identified in More than just words, including children and young people, older people, dementia, learning disabilities and mental health.
- Staff are supported through Welsh language awareness, learning and service-specific training.
- We promote Welsh through initiatives including Welsh First, Welsh Language Week and Welsh Language Champions.
- Practical resources support Welsh-speaking staff and patients, including badges, lanyards, magnets, prompt cards and training aids.

# 7 Sefyllfa Ariannol a Risgiau

# *Financial Position and Risks*

Trosolwg ariannol - BCU eang - Gorffennaf 26

- Cynllun wedi'i gyflwyno gyda diffyg o £43m, ni dderbynnir gan Lywodraeth Cymru gan nad yw'n cyflawni'r ddyletswydd ariannol allweddol.
- Heriau sylweddol i aros o fewn y cynllun, gyda sefyllfa o £8.6m o flwyddyn hyd yma yn anffafriol i'r cynllun.
- Gofyniad i fonitro a chynnal rheolaethau i gefnogi adferiad ariannol.

Risgiau Allweddol:-

- Galw cynyddol am wasanaethau.
- Her i leihau rhestrau aros.
- Cynnal ansawdd a mynediad gwasanaeth wrth gyflawni adferiad ariannol.

Financial overview - BCU wide - July 26

- Plan submitted with a deficit of £43m, not accepted by Welsh Government as does not attain the key financial duty.
- Significant challenges to remaining within the plan, with  a year to date position of £8.6m adverse to plan.
- Requirement to monitor and maintain controls to support financial recovery.
- Key Risks:-
  - Increasing demand for services.
  - Challenge to reduce waiting lists.
  - Maintaining service quality and access whilst delivering financial recovery.

# 8 Parodrwydd a Gwydnwch

# *Emergency Preparedness and Resilience*



- Mae BIPBC yn gweithio'n agos gyda Cyngor Sir Ynys Môn, NWC-REPS, y gwasanaethau brys a Fforwm Cydnerthedd Lleol Gogledd Cymru i gynllunio, paratoi ac ymateb gyda'n gilydd.
- Rydym yn deall heriau penodol Ynys Môn - croesfannau'r Fenai, tywydd garw a dibyniaethau seilwaith - ac yn cynllunio ar gyfer amhariad cyn iddo ddigwydd.
- Ein blaenoriaeth yw diogelu cleifion a chynnal gwasanaethau hanfodol, gan weithio drwy gylch monitro, asesu, cydgysylltu, ymateb, adfer a dysgu.
- Mae cynnydd da wedi'i wneud i gryfhau trefniadau Parodrwydd a Chydnerthedd (EPRR), hyfforddiant a chysylltiadau partner, gyda ffocws parhaus ar ddysgu a gwella.

- BCUHB works closely with Isle of Anglesey County Council, NWC-REPS, emergency services and the North Wales Local Resilience Forum to plan, prepare and respond together.
- We understand Anglesey's specific challenges - the Menai crossings, severe weather and infrastructure dependencies - and plan for disruption before it happens.
- Our priority is protecting patients and maintaining essential services, working through a monitor, assess, coordinate, respond, recover and learn cycle.
- Good progress has been made strengthening EPRR arrangements, training and partner links, with continued focus on learning and improvement.

# Negeseuon Allweddol

- Mae partneriaeth gref yn sbarduno gwelliant gwirioneddol ar draws llif cleifion, rhyddhau cleifion a gwydnwch.
- Cynnydd mesuradwy ar draws Ynys Môn: amseroedd aros byrrach, llai o oedi rhyddhau, a boddhad uchel gan gleifion.
- Ymrwymiad parhaus i anghenion penodol Ynys Môn - o ddarpariaeth Gymraeg gyson i gynllunio gwydnwch sy'n benodol i'r ynys.

# *Key Messages*

- Strong partnership working is driving real improvement across patient flow, discharge and resilience.
- Measurable progress across Anglesey: shorter waiting times, reduced discharge delays, and high patient satisfaction.
- An ongoing commitment to Anglesey's specific needs - from consistent Welsh language provision to island-specific resilience planning.

## Diolch

*Cwestiynau?*

## Thank You

*Questions?*

This page is intentionally left blank

03/2026

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 28 Medi, 2026 |
| **Pwnc:** | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Sonia Williams |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Elin Allsopp | Swyddog Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2026/27

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/27
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Argymhelliad(ion):
Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Amherthnasol

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
  - Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
  - Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
  - Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2026/27 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐ Do
☒ Naddo

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2026

| |
|---|
| Os naddo, eglurwch pam: Amherthnasol |

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried |

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Positif / Niwtral / Negyddol a sut<br>Amherthnasol |

## 8 Goblygiadau ariannol

| |
|---|
| Amherthnasol |

## 9 Atodiadau

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2026/27 |

## 10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Elin Allsopp, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI

## Cyfnod: Mai 2026 i Ebrill 2027 Fersiwn dyddiedig: 17/09/26



## Nodyn i Randdeiliaid a’r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi’i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio’r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma.
Cysylltwch â’r Tîm Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [sgriwtiniscrutiny@ynysmon.llyw.cymru]

## Mai 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mai, 2026 (12/05/2026)** | **Mai, 2026 (12/05/2026)** |
| Ethol Cadeirydd: 2026/27 | Ethol Cadeirydd: 2026/27 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2026/27 | Ethol Is-gadeirydd: 2026/27 |

## Mehefin 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mehefin, 2026 (10/06/2026) – Ch4** | **Mehefin, 2026 (09/06/2026) – Addysg / Iaith Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2025/26 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2025/26<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |

| | |
|---|---|
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2026/27 | Adroddiad ADY a Ch 2025/26-mesur cynnydd |
| Arolygiaeth Gofal Cymru | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Gorffennaf 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2026 (14/07/2026)** |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Cynllun Strategol Taclo Tlodi |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Medi 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Medi, 2026 (16/09/2026) – Ch1** | **Medi, 2026 (15/09/2026) -Cyfarfod Arbennig** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2026/27 | Adroddiad yn dilyn ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr |
| Strategaeth Tai Gwag 2023-2028-mesur cynnydd | Adroddiad Masnachfreinio Bysiau |
| Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) 2024-2029-mesur cynnydd | Casglu Gwastraff ac Ailgylchu Cyn-benderfyniad Sgriwtini |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | |

| | |
|---|---|
| | **Medi, 2026 (28/09/2026)** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

Hydref 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Hydref, 2026 (14/10/2026)** | **Hydref, 2026 (13/10/2026)** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2025/26 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2025/26 |
| Adroddiad Cynydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2025/26 | Erthygl 4 |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Tachwedd 2026

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Tachwedd, 2026 (11/11/2026) - Ch2** | **Tachwedd, 2026 (10/11/2026)** |
| | Cronfa Lefelu i Fyny, Cronfa Twf Leol ac Adroddiad SPF |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2026/27 | Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2025/26 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Diogelu Corfforaethol | **Eitem er gwybodaeth:** Cynllun Strategol Rheoli Asedau-mesur cynnydd |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Ionawr 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Ionawr, 2027 (19/01/2027) – Cyllideb 2027/28** | **Ionawr, 2027 (20/01/2027)** |
| 2027/28 Sefydlu Cyllideb (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2025/26<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Cynllun Strategol Tuag a Sero Net 2026-2031- mesur cynnydd (Targedau Ynni Gwasanaethau Tai) |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Chwefror 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Chwefror, 2027 (17/02/2027) –2027/28 Cyllideb** | **Chwefror, 2027 (16/02/2027)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2027/28 – refeniw a chyfalaf | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | Porthladd Rhydd Ynys Môn-mesur cynnydd |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Mawrth 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Mawrth, 2027 (10/03/2027) - Ch3** | **Mawrth, 2026 (09/03/2027)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2026/27 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031 | Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd |
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2025/26 | Eitem er gwybodaeth: Adroddiad Cynnydd Ch3 2026/27 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |

## Ebrill 2027

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** |

This page is intentionally left blank